# Polisi ynghylch Defnydd Derbyniol o Gyfryngau Cymdeithasol

## Maes Busnes:

Cysylltiadau â Chwsmeriaid Cynnyrch a Chysylltiadau Allanol

**Fersiwn:** 1.1

**Cyfeirnod y ddogfen:** POL-19-125

## Rheoli'r ddogfen

Statws: Ar waith ers 28 Mehefin 2019

**Hanes fersiynau'r ddogfen**

| Dyddiad | Fersiwn | Awdur | Sylwadau |
|---|---|---|---|
| | V0.7 | Lesley Raybould | Drafft cychwynnol a newidiadau'n dilyn gwaith ymgynghori â'r timau canlynol: Materion Cyfreithiol a Chydymffurfio, Gwasanaethau Atal Twyll, Cyfathrebu Corfforaethol, Cyfathrebu â Chwsmeriaid a Marchnata, a Gweithrediadau. |
| | V0.8 | Yvonne Dunne | Mân newidiadau'n dilyn gwaith ymgynghori â People@SLC |
| | V0.9 | Lesley Raybould | Mân newidiadau'n dilyn trafodaeth â Madeleine Firth |
| | V1.0 | Lesley Raybould | Sylwadau terfynol gan David Wallace |
| | V1.1 | Lesley Raybould | Newidiadau'n dilyn trafodaeth â'r Tîm Arwain Gweithredol |

**Cofrestr adolygu a chymeradwyo**

**Noder**:
C - Cyfrifol, A - Atebol, Y - Ymgynghorwyd â'r sawl dan sylw H – Hysbyswyd y sawl dan sylw

| Enw | Swydd | Rôl o ran adolygu a chymeradwyo |
|---|---|---|
| David Wallace | Dirprwy Brif Weithredwr a Phrif Swyddog Cwsmeriaid | A / C |
| Gary Womersley | Ysgrifennydd y Cwmni | Cymeradwyo at ddiben llywodraethu |
| Gillian Walker | Pennaeth Cyflenwi'r Gwasanaeth Adnoddau Dynol | Y |
| Fiona Innes | Pennaeth Gwasanaethau Atal Twyll | Y |
| Eleanor Marshall/Marjorie Calder | Pennaeth Cyfathrebu | Y |
| People@SLC | Partneriaid Busnes – Pobl | Y |
| Gweithrediadau | David Thomson | Y |
| Grŵp Rhanddeiliaid Myfyrwyr Agored i Niwed | Grŵp Rhanddeiliaid Myfyrwyr Agored i Niwed | H |

| | | |
|---|---|---|
| Yr Undeb Gwasanaethau Cyhoeddus a Masnachol | Undeb Llafur Cydnabyddedig | Y |
| Yr Uwch Dîm Rheoli | Yr Uwch Dîm Rheoli | Y |
| Y Tîm Arwain Gweithredol | Y Tîm Arwain Gweithredol | Y |

## Amserlen diweddaru'r ddogfen

Bydd y ddogfen hon yn cael ei hadolygu o leiaf bob blwyddyn neu pryd bynnag y bydd gofynion busnes, deddfwriaeth a rheoliadau'n newid.

## Perthnasedd

Mae'r gofynion a nodir yn y ddogfen hon yn berthnasol i bob gweithiwr parhaol, gweithiwr dros dro a gweithiwr dan gontract a gyflogir gan y Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr, neu unrhyw sefydliadau trydydd parti tra byddant yn gweithio ar fusnes y Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr neu'n cael eu cyflogi i gyflawni ei fusnes.

## Cydymffurfio

Gallai unrhyw weithiwr y canfyddir ei fod wedi gweithredu'n groes i'r gofynion hyn wynebu camau disgyblu, a allai arwain at derfynu ei gyflogaeth.

Ar sail ei ddisgresiwn ei hun gallai'r Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr fynnu bod unrhyw un o weithwyr sefydliad trydydd parti a gyflogir dan gontract i gyflawni busnes y Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr, y canfyddir ei fod wedi gweithredu'n groes i'r gofynion gweithdrefnol hyn, yn cael ei dynnu o'r cyfrif darparu gwasanaeth.


© The Student Loans Company Ltd

# Cynnwys

**Rheoli'r ddogfen** ........ 2

**Cynnwys** ........ 4

1 Brîff a diben y polisi ........ 5

2 Rhychwant ........ 5

3 Egwyddorion y polisi ........ 5

4 Gweithwyr sy'n defnyddio cyfryngau cymdeithasol at ddibenion busnes ........ 6

5 Defnydd gweithwyr o gyfrifon personol ar gyfryngau cymdeithasol ........ 10

6 Monitro'r defnydd a wneir o gyfryngau cymdeithasol ........ 11

7 Cwsmeriaid ........ 11

8 Cydymffurfio â'r polisi hwn ........ 13

 © The Student Loans Company Ltd

# 1 Brîff a diben y polisi

1.1 Mae ein Polisi ynghylch Defnydd Derbyniol o Gyfryngau Cymdeithasol yn darparu fframwaith ar gyfer defnyddio cyfryngau cymdeithasol. Mae cyfryngau cymdeithasol yn fannau lle gall pobl gyfnewid gwybodaeth, barn a phrofiadau er mwyn dysgu, datblygu a chael gafael ar wasanaethau. Maent wedi dod yn adnodd pwerus a defnyddiol i helpu cwsmeriaid i fynd drwy bob cam o'r broses sy'n ymwneud â chyllid myfyrwyr: Meddwl, Gwneud Cais, Asesu, Talu, Ad-dalu.

1.2 Mae'r Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr a'i gynulleidfaoedd yn defnyddio cyfryngau cymdeithasol at ddibenion busnes ac at ddibenion personol.

1.3 Pwrpas y polisi hwn yw esbonio sut y dylai gweithwyr y Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol, ac mae'n egluro'r safonau o ran ymddygiad a ddisgwylir gan weithwyr y cwmni, ei gwsmeriaid a thrydydd partïon. Bydd yn cael ei gyhoeddi ar dudalennau cyhoeddus y Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr ar y we, a bydd yn cael ei hyrwyddo a'i drafod yn fewnol gyda'r staff.

# 2 Rhychwant

2.1 Diffiniadau'r polisi

2.1.1 Mae "cyfryngau cymdeithasol" yn cyfeirio at amrywiaeth o gymunedau ar-lein, e.e. blogiau, rhwydweithiau cymdeithasol, ystafelloedd sgwrsio a fforymau. Mae'r polisi hwn yn ymdrin â'r rhain i gyd.

2.1.2 Mae "defnyddiwr" yn cyfeirio at weithwyr yn y Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr sy'n defnyddio cyfryngau cymdeithasol at ddibenion proffesiynol neu bersonol, yn ogystal â chynulleidfaoedd cyhoeddus y sianelau hyn.

2.1.3 Mae "cwsmer" yn cyfeirio at un o ddilynwyr cyhoeddus sianelau'r Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr, sydd naill ai'n fyfyriwr posibl, yn fyfyriwr, yn noddwr, yn ad-dalwr neu'n unrhyw aelod arall o'r gynulleidfa sydd â diddordeb mewn cyllid myfyrwyr.

# 3 Egwyddorion y polisi

3.1 Mae'r Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr yn ceisio cynnig gwasanaeth effeithlon o safon uchel, ac yn ceisio cynnal tryloywder yn ein gwasanaeth i gwsmeriaid ac yn ein prosesau asesu, ad-dalu a gwneud penderfyniadau.

3.2 Rydym yn disgwyl i weithwyr weithredu'n ofalus ac yn gyfrifol er mwyn diogelu delwedd ac enw da ein cwmni.

3.3 Dylai gweithwyr ddilyn ein polisi ynghylch cyfrinachedd a'n polisi diogelu data. Mae'r polisïau hynny'n rhan o hyfforddiant gorfodol i bob gweithiwr.

 © The Student Loans Company Ltd

3.4 Mae disgwyl i bob gweithiwr ddangos cwrteisi a pharch at ein cwsmeriaid.

3.5 Mae **Erthygl 8, Rhan 1, Atodlen 1 Deddf Hawliau Dynol 1998**, a thermau'r Erthygl honno, yn cydnabod fel a ganlyn:

- *everyone has the right to respect for their private and family life, home and correspondence; and*
- *there shall be no interference by a public authority with the exercise of this right except such as is in accordance with the law and is necessary in a democratic society in the interests of national security, public safety or the economic well-being of the country, for the prevention of disorder or crime, for the protection of health or morals, or for the protection of the rights and freedoms of others.*

# 4 Gweithwyr sy'n defnyddio cyfryngau cymdeithasol at ddibenion busnes

## 4.1 Canllawiau i bob gweithiwr sy'n defnyddio cyfryngau cymdeithasol at ddibenion busnes

4.1.1 Dylai'r polisi hwn gael ei ddarllen ochr yn ochr â pholisïau'r cwmni ynghylch defnydd o'r rhyngrwyd, diogelu data a defnydd derbyniol, sy'n arbennig o berthnasol i staff sy'n defnyddio cyfryngau cymdeithasol.

4.1.2 Rhaid i ddefnyddwyr beidio â gwneud y canlynol:

- Creu neu anfon deunydd a allai fod yn **ddifenwol** neu y gallai ein cwmni **gael ei ystyried yn atebol amdano**. Bydd staff sy'n defnyddio cyfryngau cymdeithasol at ddibenion busnes yn cael canllawiau clir ynghylch beth y mae hynny'n ei olygu.
- Cyhoeddi negeseuon, diweddariadau i statws, neu ddolenni cyswllt â deunydd neu gynnwys sy'n amhriodol.
    - Mae deunydd amhriodol yn cynnwys: pornograffi, sarhad hiliol neu grefyddol, sylwadau sy'n benodol i rywedd, gwybodaeth sy'n annog sgiliau troseddol neu derfysgaeth, neu ddeunyddiau sy'n ymwneud â chyltiau, gamblo neu gyffuriau anghyfreithlon.
    - Mae'r diffiniad hwn o ddeunydd amhriodol hefyd yn cynnwys unrhyw destun, delweddau neu gyfryngau eraill y byddai'n rhesymol disgwyl iddynt dramgwyddo rhywrai ar sail eu hil, eu hoedran, eu rhyw, eu credo grefyddol neu wleidyddol, eu tarddiad cenedlaethol, eu hanabledd, eu cyfeiriadedd rhywiol neu unrhyw nodwedd arall a warchodir gan y gyfraith.
- Defnyddio cyfryngau cymdeithasol ar gyfer unrhyw **weithgareddau anghyfreithlon neu droseddol.**
- Anfon **deunydd tramgwyddus neu aflonyddol** at bobl eraill drwy gyfryngau cymdeithasol.
- Cyhoeddi **safbwyntiau na ofynnwyd amdanynt** am faterion cymdeithasol, gwleidyddol neu grefyddol neu faterion eraill nad ydynt yn ymwneud â busnes.
- Defnyddio cyfryngau cymdeithasol at ddibenion **hysbysebu neu gymeradwyo**.


© The Student Loans Company Ltd

- Anfon neu gyhoeddi negeseuon neu ddeunydd **a allai niweidio delwedd neu enw da'r Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr.**
- Trafod **cydweithwyr, cwsmeriaid neu gyflenwyr** heb gael caniatâd ganddynt.
- Cyhoeddi, lanlwytho, anfon ymlaen neu gysylltu **sbam, ebost sy'n sothach ac ebost a negeseuon sy'n rhan o gadwyn.**

## 4.2 Cynrychioli'r Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr ar gyfryngau cymdeithasol

4.2.1 Yn gyffredinol, rhaid i weithwyr sicrhau eu bod yn cyhoeddi diweddariadau a negeseuon, a'u bod yn gwneud defnydd arall o'r cyfrifon hyn, yn unol ag amcanion y cwmni'n unig. Er enghraifft, caiff gweithwyr ddefnyddio cyfrifon y Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr ar gyfryngau cymdeithasol i:

- Ymateb i ymholiadau gan gwsmeriaid ac i geisiadau ganddynt am help.
- Rhannu negeseuon blog, erthyglau a chynnwys arall a grëwyd gan y cwmni.
- Rhannu erthyglau treiddgar, fideos ac unrhyw gynnwys arall sy'n berthnasol i'r busnes ond a grëwyd gan eraill.
- Galluogi dilynwyr i ddeall yn well beth sy'n digwydd yn y cwmni.
- Cyhoeddi manylion am gyfleoedd o ran gwaith, erthyglau a gwybodaeth am y Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr fel cyflogwr (LinkedIn).
- Cefnogi gweithgareddau i lansio cynnyrch newydd, a mentrau eraill.
- Cyhoeddi datganiadau gan y llywodraeth.

4.2.2 Mae rhai gweithwyr yn cynrychioli ein cwmni drwy ymdrin â chyfrifon cyfryngau cymdeithasol neu gyhoeddi deunydd ar ran y Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr. Rydym yn disgwyl iddynt weithredu'n ofalus ac yn gyfrifol er mwyn sicrhau diogelwch ein cwmni a diogelu ei ddelwedd a'i enw da, ac rydym yn disgwyl iddynt ddilyn Arddulliadur y Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr.

4.2.3 Rhaid i ddefnyddwyr:

- Ddangos parch a bod yn gwrtais ac yn amyneddgar wrth sgwrsio ar ran y Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr.
- Peidio â siarad am faterion nad ydynt yn perthyn i faes eu harbenigedd.
- Peidio â chyhoeddi cynnwys a sylwadau gwahaniaethol, tramgwyddus neu enllibus.
- Dileu unrhyw gynnwys tramgwyddus cyn gynted ag y bo modd.
- Cywiro unrhyw gynnwys camarweiniol neu anghywir cyn gynted ag y bo modd.

4.2.4 Dim ond y sawl sydd wedi'u hawdurdodi i ddefnyddio cyfrifon rhwydweithio cymdeithasol y cwmni a gaiff wneud hynny. Dim ond tîm Rheoli Cyfryngau Cymdeithasol y Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr sydd mewn sefyllfa i awdurdodi pobl i ddefnyddio'r cyfrifon hynny. Caiff gweithwyr eu hawdurdodi i ddefnyddio'r cyfrifon dan sylw pan fydd tasgau'n ymwneud â chyfryngau cymdeithasol yn rhan greiddiol o'u rôl. Mae caniatáu i bobl benodedig yn unig ddefnyddio'r cyfrifon hyn yn sicrhau bod presenoldeb y cwmni ar gyfryngau cymdeithasol yn gyson ac yn gydlynus.

4.2.5 Rhaid i weithwyr beidio ag ymosod yn bersonol ar neb mewn unrhyw fodd,

 © The Student Loans Company Ltd

na gwneud unrhyw sylwadau di-chwaeth neu dramgwyddus yn erbyn unigolion neu grwpiau.

4.2.6 Rhaid i weithwyr y mae newyddiadurwyr wedi cysylltu â nhw drwy gyfryngau cymdeithasol gyfeirio'r ymholiadau hynny at y tîm Cyfathrebu Corfforaethol.

4.2.7 Rhaid i weithwyr beidio â rhyngweithio â chwsmeriaid at ddibenion busnes gan ddefnyddio eu cyfrifon personol ar gyfryngau cymdeithasol.

4.2.8 Rhaid sicrhau na chaiff cyfrifon newydd ar gyfryngau cymdeithasol eu creu yn enw'r cwmni, oni bai eu bod wedi'u hawdurdodi gan dîm Rheoli Cyfryngau Cymdeithasol y Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr. Mae'r cwmni yn gweithredu ei bresenoldeb ar gyfryngau cymdeithasol yn unol â strategaeth sy'n canolbwyntio ar y rhwydweithiau cymdeithasol mwyaf priodol, sy'n cyd-fynd â'n busnes, gan ystyried yr adnoddau sydd ar gael. Dylid sicrhau na cheir mwy nag un cyfrif ar bob platfform ar gyfer pob brand gwasanaeth, er mwyn osgoi dryswch. Caiff archwiliadau eu cynnal yn rheolaidd er mwyn sicrhau nad oes unrhyw gyfrifon heb awdurdod wedi'u sefydlu yn enw'r Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr neu unrhyw frand gwasanaeth sy'n perthyn iddo.


© The Student Loans Company Ltd

## 4.3 Cyfnod cyn etholiad

4.3.1 Wrth gynrychioli'r Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr ar gyfryngau cymdeithasol, rhaid i weithwyr beidio â gwneud sylwadau ar bolisïau ac arferion y llywodraeth. At hynny, ni ddylent wneud sylwadau ar faterion sy'n ddadleuol o safbwynt gwleidyddol. Mae hynny'n berthnasol hefyd i weithgareddau eraill megis arolygon, gweithgareddau hyrwyddo gwasanaeth a thrafodaethau.

4.3.2 Mae'r canllawiau hyn yn berthnasol bob amser ond bydd canllawiau ychwanegol yn cael eu darparu yn ystod unrhyw gyfnod cyn etholiad neu refferendwm, a dylid eu darllen ar y cyd â'r polisi hwn. Cyfnod cyn etholiad yw'r term a ddefnyddir i ddisgrifio'r cyfnod rhwng yr adeg pan gaiff etholiad ei gyhoeddi a'r dyddiad pan gaiff yr etholiad ei gynnal. Caiff canllawiau swyddogol eu rhoi gan Swyddfa'r Cabinet i weision sifil a chyhoeddus ynghylch y rheolau y mae'n rhaid iddynt eu dilyn mewn perthynas â busnes y llywodraeth yn ystod y cyfnod dan sylw. Os ceir unrhyw amheuaeth ynghylch a yw cam gweithredu'n briodol ai peidio, dylai defnyddwyr ymatal rhag ei gymryd a gofyn i'w rheolwr am arweiniad.

## 4.4 Defnyddio cyfryngau cymdeithasol er mwyn cael gafael ar wybodaeth gyhoeddus am gwsmeriaid

4.4.1 Mae Datganiad Diogelu Data/Hysbysiad Preifatrwydd y Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr yn egluro sut y caiff gwybodaeth bersonol myfyrwyr ei phrosesu a'i defnyddio gan y cwmni. Caiff y datganiad hwn ei roi i bob myfyriwr pan fyddant wedi cwblhau eu cais am gyllid. Mae elfen o'r amodau a'r telerau hynny'n caniatáu i'r Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr ddefnyddio gwybodaeth bersonol er mwyn canfod troseddau, gan gynnwys achosion o dwyll, ymchwilio iddynt a'u hatal.

4.4.2 Mae'r Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr yn ymchwilio i wahanol fathau o dwyll posibl, a all gael eu cyfeirio o nifer o ffynonellau sy'n cynnwys y canlynol ymhlith eraill:

- Dadansoddwyr atal twyll, sy'n monitro data ceisiadau'n barhaus er mwyn chwilio am dueddiadau a/neu ddangosyddion twyll.
- Staff asesu wrth i geisiadau gael eu prosesu.
- Aelodau'r cyhoedd sy'n pryderu ac sy'n credu bod ganddynt wybodaeth am dwyll sy'n cael ei gyflawni yn y system cyllid myfyrwyr.
- Cronfeydd data allanol ar gyfer canfod ac atal twyll.


© The Student Loans Company Ltd

4.4.3 Pan gaiff ymchwiliad ei agor bydd yr ymchwilwyr yn dilyn proses a allai, yn dibynnu ar natur yr achos, olygu cael gafael ar wybodaeth gyhoeddus gan ddefnyddio cyfrifon cyfryngau cymdeithasol sy'n adlewyrchu brand y Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr ac sy'n cynnwys cyfrifon cyfryngau cymdeithasol cyhoeddus yn enw'r myfyriwr a/neu'r noddwr (noddwyr).

4.4.4 Gall adolygu cyfrifon cyfryngau cymdeithasol gynorthwyo gwaith yr ymchwilwyr drwy gynnig gwybodaeth ychwanegol am berthnasoedd pobl â'i gilydd, lleoedd, lleoliadau, cyfrifon neu unrhyw endid arall, Yna, gall y wybodaeth dan sylw alluogi'r ymchwilwyr i herio unrhyw anghysonderau a nodwyd yn ystod y prosesau asesu, talu ac ad-dalu.

4.4.5 Ni fydd y Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr fyth yn gwneud penderfyniad asesu ar sail gwybodaeth sydd ar gyfryngau cymdeithasol yn unig. Rhaid i'r wybodaeth a geir o gyfryngau cymdeithasol gael ei hategu bob amser gan dystiolaeth ychwanegol.

4.4.6 Mae gweithgarwch annerbyniol yn cynnwys y canlynol ymhlith pethau eraill:

- Parhau i fonitro gweithgarwch unrhyw gwsmer ar-lein ar ôl i ymchwiliad ddod i ben.
- Cysylltu â chwsmeriaid drwy gyfryngau cymdeithasol yn rhan o ymchwiliad.
- Mynegi unrhyw farn, er enghraifft drwy 'hoffi' neges, neu rannu unrhyw gynnwys a welir ar gyfrifon cwsmeriaid neu gyfrifon trydydd partïon.
- Sefydlu neu ddefnyddio cyfrifon ffug at y diben hwn neu unrhyw ddiben arall.

4.4.7 Bydd y Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr yn sicrhau, wrth gyflawni ei swyddogaeth, ei fod bob amser yn gwneud defnydd cyfreithlon o gyfryngau cymdeithasol er mwyn canfod ac atal twyll, ac fel y bo angen er mwyn diogelu lles economaidd sylfaen gwsmeriaid y Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr a threthdalwyr yn gyffredinol ac er mwyn diogelu hawliau a rhyddid pobl eraill.

4.4.8 Bydd y defnydd a wneir o gyfryngau cymdeithasol yn y modd hwn bob amser yn berthnasol, yn gymesur ac yn rhesymol, ac ni fydd yn ddefnydd gormodol. Ni fydd y Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr yn ymwneud ag unrhyw weithredoedd y bwriedir iddynt dwyllo, trapio neu ddenu rhywun i wneud rhywbeth, wrth gasglu tystiolaeth o ffynonellau ar gyfryngau cymdeithasol.

# 5 Defnydd gweithwyr o gyfrifon personol ar gyfryngau cymdeithasol

5.1 Mae'r Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr yn caniatáu i weithwyr fynd i'w cyfrifon personol yn y gwaith. Rydym yn disgwyl iddynt weithredu'n gyfrifol a sicrhau nad yw hynny'n effeithio ar eu lefelau cynhyrchiant. Gall gwneud defnydd gormodol o gyfrifon personol ar gyfryngau cymdeithasol yn y gwaith leihau effeithlonrwydd a lefelau canolbwyntio, felly rhaid i weithwyr sicrhau mai dim ond yn ystod eu

 © The Student Loans Company Ltd

hegwyl y byddant yn defnyddio eu cyfrifon personol.

5.2 Mae gan staff y Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr hawl i fywyd preifat a rhyddid mynegiant, ond fel gweision cyhoeddus mae'n rhaid i bob gweithiwr osgoi gwneud unrhyw sylw ar eu cyfrifon personol ar gyfryngau cymdeithasol, sy'n debygol o niweidio diogelwch neu enw da'r cwmni. Mae hynny'n berthnasol i sylwadau ynghylch polisi neu wasanaethau'r llywodraeth neu sylwadau uniongyrchol ynghylch y Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr fel cyflogwr.

5.3 At hynny, os yw proffiliau personol gweithiwr ar gyfryngau cymdeithasol yn nodi eu cysylltiad â'r Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr, rhaid i'r gweithiwr fod yn ofalus wrth gyhoeddi cynnwys tra bydd yn cyflawni busnes y cwmni, yn teithio y tu allan i oriau gwaith arferol neu'n cymdeithasu ar ddigwyddiad neu daith sy'n ymwneud â busnes y cwmni.

## 6 Monitro'r defnydd a wneir o gyfryngau cymdeithasol

6.1 Caiff adnoddau TG a rhyngrwyd y Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr – sy'n cynnwys cyfrifiaduron, ffonau clyfar a chysylltiadau â'r rhyngrwyd – eu darparu er mwyn iddynt gael eu defnyddio at ddibenion busnes dilys. Felly, bydd y Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr yn monitro'r graddau y mae gweithwyr yn manteisio ar yr adnoddau hyn er mwyn defnyddio rhwydweithiau cymdeithasol a mynd iddynt.

6.2 Dim ond staff ag awdurdod fydd yn cyflawni unrhyw waith monitro neu archwilio o'r fath.

6.3 Mae unrhyw ddata'n ymwneud â rhwydweithiau cymdeithasol, a gaiff ei ysgrifennu, ei anfon neu'i dderbyn drwy systemau'r Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr, yn rhan o gofnodion swyddogol y cwmni. Gall y gyfraith orfodi'r cwmni i ddangos gwybodaeth i asiantaethau sy'n gorfodi'r gyfraith, neu bartïon eraill.

6.4 Mae enghreifftiau o achosion lle na chydymffurfir â'r polisi cyfryngau cymdeithasol i weithwyr yn cynnwys y canlynol ymhlith eraill:

- Diystyru cyfrifoldebau swydd a therfynau amser er mwyn defnyddio cyfryngau cymdeithasol.
- Datgelu gwybodaeth gyfrinachol neu fasnachol drwy gyfrifon personol neu gyfrifon busnes.
- Cyfeirio sylwadau tramgwyddus at bobl eraill sydd ar-lein.

## 7 Defnydd cwsmeriaid o sianelau'r Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr ar gyfryngau cymdeithasol

7.1 Rydym wedi ymrwymo i ddiogelu a pharchu preifatrwydd ein cwsmeriaid. Drwy ddefnyddio ein sianelau ar gyfryngau cymdeithasol maent yn cytuno â'n Polisi Cyfryngau Cymdeithasol, a gyhoeddir ar wefannau'r Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr i gwsmeriaid ac ar ei sianelau ar gyfryngau cymdeithasol.

7.2 Mae gan y Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr ddyletswydd gofal tuag at ei staff, ac mae hynny'n cynnwys y modd y maent yn rhyngweithio â chwsmeriaid ar ein sianelau ar gyfryngau cymdeithasol.


© The Student Loans Company Ltd

7.3 Bwriedir i sianelau'r Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr, Cyllid Myfyrwyr Cymru a Cyllid Myfyrwyr Lloegr ar gyfryngau cymdeithasol fod yn ffynhonnell o wybodaeth ar gyfer y cyhoedd ac yn fan lle gall y cyhoedd ofyn cwestiynau am gyllid myfyrwyr. Rydym yn ceisio cynnig gwybodaeth ddefnyddiol am ein cynnyrch a'n gwasanaethau ac yn ceisio darparu cynnwys diddorol a defnyddiol ar gyfer myfyrwyr presennol a blaenorol, rhieni ac unrhyw un sydd â diddordeb mewn cyllid myfyrwyr.

7.4 Er mwyn sicrhau bod yr amgylchedd hwn yn parhau'n agored ac yn gyfeillgar, rydym wedi sefydlu'r canllawiau canlynol:

- Mae pob un o'n cwsmeriaid sy'n defnyddio sianelau YouTube y cwmni a'i dudalennau LinkedIn, Facebook a Twitter yn cytuno i gydymffurfio ag amodau gwasanaeth y sianelau, ac maent yn ymrwymo iddynt wrth gofrestru ar y sianel dan sylw. At hynny, nid yw'r farn a'r cynnwys y mae defnyddwyr eraill yn eu cyhoeddi ar ein tudalen yn adlewyrchu o reidrwydd farn Cyllid Myfyrwyr Cymru, Cyllid Myfyrwyr Lloegr na'u rhiant-gwmni, sef y Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr (The Student Loans Company Limited).
- Dylai unrhyw sylwadau a gyhoeddir fod yn berthnasol i Cyllid Myfyrwyr Cymru, Cyllid Myfyrwyr Lloegr, y Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr a'i gymuned, a dylent ddangos parch atynt. Rydym yn cadw'r hawl i ddileu unrhyw gynnwys yr ydym yn barnu ei fod yn annerbyniol, blocio unrhyw gwsmer sy'n gweithredu'n groes dro ar ôl tro i'r telerau hyn, ac adrodd yn ei gylch.

7.5 Mae gweithgarwch annerbyniol yn cynnwys y canlynol ymhlith eraill:

- Gwneud sylwadau y mae'r Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr yn barnu eu bod yn ymosodol, yn dramgwyddus, yn anweddus, yn aflednais neu'n dreisgar.
- Cam-drin defnyddwyr eraill ar y platfformau, eu bygwth, eu stelcio, aflonyddu arnynt neu ymosod arnynt mewn unrhyw fodd arall.
- Cyhoeddi unrhyw gynnwys sy'n dramgwyddus neu'n ddirmygus tuag at eraill yng nghyswllt eu hil/ethnigrwydd, eu crefydd, eu rhywedd, eu cenedligrwydd neu'u credoau gwleidyddol.
- Defnyddio unrhyw iaith neu gynnwys sy'n achosi anhrefn neu sy'n ailadroddus, yn gamarweiniol, yn anghyfreithlon neu'n dwyllodrus.
- Trolio.
- Llithio masnachol.
- Lanlwytho neu glymu ffeiliau sy'n cynnwys firysau, ffeiliau llwgr neu unrhyw raglenni neu feddalwedd debyg arall a allai niweidio'r modd y mae cyfrifiaduron a rhwydweithiau'n gweithredu, neu a allai beryglu eu diogelwch.
- Treisio hawliau eiddo deallusol.

7.6 Rydym yn annog ein cwsmeriaid i gyd i fod yn weithredol wrth ddiogelu eu preifatrwydd personol. Gall cyhoeddi gwybodaeth am eu cyllid myfyrwyr neu'u cyfrif ar-lein (er enghraifft, eu cyfeirnodau cwsmer) gynyddu'r risg y bydd lladron ar-lein a sgamiau gwe-rwydo yn eu targedu. Ni fydd y Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr fyth yn gofyn am wybodaeth am fanylion personol mewn ebost, neges destun neu neges na ofynnwyd amdani ar gyfryngau cymdeithasol. Dylech adrodd ynghylch unrhyw ymgais amheus i'ch gwe-rwydo wrth ein Gwasanaeth Atal Twyll:

 © The Student Loans Company Ltd

phishing@slc.co.uk

7.7 Gall cwsmeriaid sydd â chwestiynau personol, neu gwestiynau penodol ynghylch eu cyfrif, anfon neges breifat i'r Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr. Byddant yn cael cais i roi caniatâd i drafodaeth ddigwydd ar gyfleuster Messenger Facebook neu gyfleuster negeseuon uniongyrchol Twitter. Nodwch fod ein polisi diogelwch yn ein hatal rhag gweld delweddau a ffeiliau a anfonir drwy gyfleuster Messenger Facebook a chyfleuster negeseuon uniongyrchol Twitter.

7.8 Mae'r Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr yn cadw'r hawl i addasu neu newid yr amodau hyn ar unrhyw adeg.

# 8 Cydymffurfio â'r polisi hwn

8.1 Rhaid i bob defnyddiwr a chwsmer gydymffurfio ag amodau defnyddio'r platfform perthnasol ar gyfryngau cymdeithasol, yn ogystal â'r polisi hwn.

8.2 Bydd unrhyw weithiwr y canfyddir ei fod wedi gweithredu'n groes i'r polisi hwn yn wynebu camau disgyblu, a allai arwain at derfynu ei gyflogaeth.

8.3 Os bydd unrhyw ddefnyddiwr neu gwsmer:

- yn annog pobl eraill i gyhoeddi cynnwys annerbyniol
- yn defnyddio delweddau tramgwyddus fel eu llun proffil
- yn defnyddio enw defnyddiwr sy'n dramgwyddus

byddwn yn eu tynnu oddi ar ein sianelau ar gyfryngau cymdeithasol, yn eu blocio, yn adrodd yn eu cylch neu'n eu gwahardd.

8.4 Dogfennau cysylltiedig

Mae'r ddogfen hon yn rhan hanfodol o fframwaith polisi cyffredinol y Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr, a dylid ei darllen ar y cyd â dogfennau cysylltiedig perthnasol sy'n cynnwys y canlynol:

| Disgrifiad o'r ddogfen |
| --- |
| Datganiad Diogelu Data/Hysbysiad Preifatrwydd y Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr<br><br>Polisi ynghylch Defnydd Derbyniol<br><br>Polisi Diogelu Data<br><br>Hysbysiad Preifatrwydd i Weithwyr<br><br>Hysbysiad Preifatrwydd i Ymgeiswyr |


© The Student Loans Company Ltd